YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 39. RHIF 3/4 AWST/MEDI 2017 50c

# Cymry Lerpwl yn Derbyn, yn Prynu ac yn Ymlacio ym Mehefin



*Susan Evans yn derbyn deheulaw Cymdeithas Capel Bethania gan John P. Lyons a Dr. D. Ben Rees*



*Olivia See, Gateacre wedi cwplhau casglu'r arian tuag at 'Corwynt Cariad' yn yr Ocsiwn*




*Trysorydd Yr Angor yn drwmlwythog ar ddiwedd yr Ocsiwn*



*Enid Pierce Hughes, Allerton yn dymuno Iechyd Da i'w chyd-Gymry yn Maeshir*

**YN Y RHIFYN HWN -** Golygyddol (Tân Tŵr Grenfell); Newyddion Seion, Penbedw, Eglwys Bethania; Eglwys Bethel. Tasgau dros Wyliau'r Haf; Adolygiadau; Darlith Lerpwl.

Golygyddol

# TÂN TŴR GRENFELL

## *gan D. Ben Rees*

Yn ôl yr heddlu y mae o leiaf 79 o bobl wedi colli ei bywydau fel canlyniad i'r tân a aeth o lawr i lawr yn Nhŵr Grenfell yng Ngogledd Kensington yn oriau mân bore Mercher, 14 Mehefin. Yr oedd yr ardal yn y newyddion pan ddatgelwyd canlyniadau yr Etholiad Cyffredinol ar ddydd Gwener, Mehefin 9. Enillwyd y sedd Chelsea a Kensington am y tro cyntaf erioed gan y Blaid Lafur ar ôl cyfrif y pleidleisiau dair gwaith! Enillodd y ferch a gynrychiolai Lafur o ugain pleidlais. Ond wythnos yn ddiweddarach yr oedd hi a channoedd eraill yn mynegi ei meddyliau am Gyngor Kensington a Chelsea, ac yn chwilio bai am fethiant yr awdurdodau cenedlaethol a lleol i ofalu ar ôl y dinasyddion tlawd a lochesai yn Grenfell.

Y cwestiwn sylfaenol yw sut y llwyddodd ffrwydrad mewn rhewgell i larpio tŵr cyfan? Sut y methodd un o'r bwrdeisdrefi cyfoethocaf ym Mhrydain i gyd i amddiffyn ei thrigolion tlotaf. Ar draws y cymunedau yr oedd hi'n amlwg fod arweinwyr fel y gweddill o gymdeithas yn ofnus ac yn ei chael hi'n anodd amgyffred y sefyllfa nas gwelwyd erioed o'r blaen. Yn Lerpwl ar un adeg yr oedd hanner dwsin o'm aelodau yn byw yn y tyrau hyn a byddwn yn galw i'w gweld yn Toxteth a West Derby a Norris Green. Yr oedd y fflatiau yn gysurus a'r olygfa ohonynt yn codi calon y gwanaf ohonom. Ond yr oedd sefyllfa Tŵr Grenfell mor wahanol mewn un peth. Oherwydd o fewn dau i dri tafliad carreg ceid tai yn gwerthu am ddeg miliwn o bunnau, a chafwyd yr argraff (teg neu annheg) fod swyddogion Chelsea a Kensingon yn gweld tenantiaid y tai cymdeithasol *(social housing tenants)*, llawer ohonynt yn fewnfudwyr, yn dipyn o niwsans gan ei bod yn byw ar darn o dir a ellid ei werthu i ddatblygwyr am bris enfawr.

Yr oedd carfan uchel o denantiaid Tŵr Grenfell, ymhell cyn i'r tân ddinistrio bywyd a chartref, wedi protestio am gyflwr yr adeilad ac am ddiffyg darpariaethau i ddiffodd unrhyw fflamau a allai ddeillio o fflat arbennig. Y Cyngor oedd bia'r tŵr i gyd, ond yr oedd wedi gosod y cyfrifoldeb o weithredu bloc i gyd i ddwylo KCTOM fel y'i gelwid, *Kensington and Chelsea Tenant Management Organisation*. Nid oedd KCTMO chwaith yn clywed y cwynion, fod sbwriel yn llenwi'r biniau ac yn cael ei gadael yno am hydoedd, dim ffordd allan a'r wahân i'r grisiau, a'r teclyn diffodd tân byth yn cael ei ddefnyddio na'i archwilio. Ac fe faentumir fod y gloch i alw pobl allan o'r adeilad wedi distewi y bore Mercher tyngedfennol. Pam yr anwybyddid cri a llythyron a phrotestiadau arweinwyr y tenantiaid?

Mae'r ateb yn syml meddai arweinydd y Cyngor a welwyd yn gyson ar y teledu: mae'r arian yn brin. Eto beth yw'r ffeithiau celyd? Yn 2016 gwariodd y Cyngor lleol 40 miliwn o bunnoedd ar fflatiau cymdeithasol Grenfell. Swm enfawr. Ac eto fe wnaeth y Cyngor elw o 55 miliwn mewn rhenti ar y tenantiaid. Dyna elw o bymtheg miliwn. Yn 2013 fe arbedwyd 30 miliwn o bunnoedd fel Cyngor, a chyflwynwyd i'r trigolion oedd yn talu treth y cyngor ar y band uchaf wobr o £100 yr un. Dealler fod gan y Cyngor y swm o 274 miliwn o gyfalaf yn y cyllid, sydd yn awgrymu na ellid yn hawdd iawn bledio ei bod yn fyr o gyfalaf. Nid oedd yr arian yn brin.

Y gofid ydyw fod y Cyngor wedi gwario swm sylweddol ar y Tŵr yn 2016 gan osod boilerau newydd, a gosod plisgyn i harddu'r adeilad a'i wneud yn ddiogelach yn ôl yr arbenigwyr. Do gwariwyd y swm o 8 a hanner miliwn. Aeth yr arian i ffyrm o'r enw 'Rydon' gan mae hwy oedd y rhataf o'r adnewyddwyr. Gwnaeth Rydon elw o 14 miliwn yn 2016, ond yn ôl a ddeallir, gosodwyd cryn lawer o'r gwaith yn Grenfell allan i gwmnïau llai. Yr oedd naw cwmni yn rhan o'r adnewyddiad, ac er i'r tenantiaid gwyno am ansawdd cryn dipyn o'r gwaith, fel methiant i roddi plisgyn oamgylch y peipiau nwy, oherwydd y ffocws oedd ar y paneli oedd i brydferthu y tŵr. Ond mae'n edrych yn debyg fod y paneli hyn wedi troi yn lludw mewn munudau a fod y fflamau wedi cael ei atgyfnerthu ganddynt. Fe waherddir y paneli hyn mewn llawer o wledydd ond ym Mhrydain y mae amwysedd ar ran y Llywodraethau oddiar dechrau'r ganrif. Ond pwy a fu'n gyfrifol am arolygu'r gwaith a'i dderbyn? Pam na fu ymateb i'r cwynion? Pam y rhoddwyd y gwaith i gwmni Rydon yn y lle cyntaf gan gofio fod Cyngor Sutton yn 2013 wedi llofnodi cytundeb pum mlynedd a'r ffyrm, ond wedi ei atal blwyddyn yn ddiweddar, am fod y gwaith a gyflawnwyd ddim o'r safon y gobeithid amdano?

Ond mae'n amlwg fod y Cyngor fel llawer ohonom yn ceisio arbed arian ar fater o fywyd a marwolaeth. Byddai cael system o ddŵr yn ffrydio allan, *sprinkler* yw'r term, am y tŵr i gyd wedi dod yn £200,000. Dyna oedd un o argymhellion adroddiad Lakanal House yn Bermondsey pan losgwyd yn 2009 chwech o bobl, ond penderfynodd y Llywodraeth Lafur adael y cyfan ar y bwrdd, ac yno y bu trwy Lywodraeth y Clymblaid a Llywodraeth Mrs May. Ni lwyddodd hi i gofleidio y dioddefwyr fel y gwnaeth Maer Llundain (er y beirniadu a fu arno yntau) a Jeremy Corbyn, arwr yr awr. Gwelwyd y Frenhines mor sensitif ag erioed yn ysgwyd llaw gyda'r galarwyr a'r gwasanaethwyr parod y tân, heddlu a;r ambiwlans.

I lawer ohonom daliwn i glywed am ddewrder y tenantiaid ac am gymaint ohonynt yn dilyn cyfarwyddiadau y brigâd tân o beidio gadael ei cartref cyn iddynt ddod i'w hachub. Ond nid oedd modd i neb ddianc nac i'r brigâd dân ddod yn agos atynt i'w harbed rhag y fflamau. Pwy na all anghofio geiriau olaf merch fach deuddeg oed ar y ffôn symudol i'w mam. "Mammy, come and get me"? Ei henw, Jessica. Hanner awr wedi un y bore Mercher oedd hi ac yr oedd Jessica wrth ei hun yn y fflat ar yr ugeinfed llawr. Yr oedd ei mam, 38 oed, yn glanhau swyddfa yn y ddinas, un o'r cannoedd o lanhawyr sydd yn gweithio o ddeg y nos hyd chwech y bore yn swyddfeydd Llundain. Yr oedd ei thad wedi gadael ryw ddeg munud cyn i Jessica ffonio, a disgwyliau ei chwaer hynaf adref unrhyw funud. Yn y munudau hynny torrodd y tân allan. Rhuthodd ei mam adref ond gwrthododd y dynion tân iddi ddringo i'r ugeinfed llawr gan y byddai hithau yn cael ei llosgi'n fyw. Ni welwyd Jessica byth oddi ar hynny a gofidir bellach ei bod hithau yn un o'r llu, a ddaw maes o law yn rhif arall yn rhestr y lladdedigion.

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Rydym yn cydymdeimlo gyda Mr a Mrs Terry O'Neill. Bu farw un o'i cymdogion a chefnder Terry yng Nghaer.

Ar bnawn Sul, 11 Mehefin daeth nifer dda o aelodau o gapeli ardal Betws Gwerful Goch i addoli gyda ni. Yn eu plith daeth Mr. Trebor Edwards y canwr adnabyddus. Wedi lluniaeth ysgafn ar ôl y gwasanaeth aeth y Parch Victor Edwards a'r cwmni i'r Parc i weld cofeb y Gadair Ddu. Rydym yn edrych ymlaen at y dathlu ar Medi 9 a 10. Ar y degfed cynhelir y cyfan yn Seion, Oedfa'r bore am 10.30, yna cinio yn y festri, a Chymanfa Ganu am 2 o'r gloch o dan arweiniad ein cyn-organydd (yn nyddiau Salem), Alwyn Humphreys o Gaerdydd.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo, Lerpwl

Edmygwn yn fawr benderfyniad Mrs Marian Lyons i ddilyn yr oedfaon ym Methania a Bethel, ac ar ymweliad y Parchedig Gerallt Lloyd Evans, Cerrigceinwen â Bethel ar fore Sul, 25 Mehefin braf oedd ei gweld gyda'i phriod John a'r ferch Susan yn cydgyfranogi o freintiau'r Eglwys. Llwyddodd ein Gweinidog i lenwi ein Suliau am 2018 gan ein bod yn dal i dderbyn bendith yn ein cymuned. Braf oedd cael y fraint o gynyddu mewn rhif fel eglwys pan groesawyd Miss Susan Evans, Crosby yn gyflawn aelod. Y mae hi yn gynnyrch Capel Waterloo, ac yn ei phlentyndod a'i llecyndod, mynychu yn rheolaidd gyda'i



*Aelodau capeli ardal Betws Gwerful Goch yn mwynhau lluniaeth ysgafn*



*Aelodau capeli ardal Betws Gwerful Goch yn ymweld y garreg sy'n nodi Eisteddfod y Gadair Ddu Penbedw 1917*

rhieni, y diweddar Mr a Mrs Alun H. Evans. Wrth dderbyn Susan i'n plith cawn groesawu pedwerydd genhedlaeth o Gymry Lerpwl – gan fod ei hen daid Hugh Evans, awdur *Cwm Eithin*, yna ei thaid Howell Evans, un o gyfarwyddwyr Gwasg y Brython, a'i thad Alun Evans a ddilynodd ei lwybrau, ac yn awr Susan. Llawenhawn yn fawr o'i chael ac y mae'n hynod o ffyddlon i'r moddion gras ym Methania.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Ar nos Lun, 5 Mehefin cafwyd cyfarfod agored ar y testun 'Etholiad Cyffredinol 2017 a'i oblygiadau i'r dinesydd, ein dinas a'n Cristnogaeth'. Agorwyd y drafodaeth gan Dr. D. Ben Rees gan ddarllen rhan o'i erthygl olygyddol yn yr *Angor* a luniodd yn awgrymu mai Theresa May fyddai'r person mwya' tebygol i arwain y wlad, a'i dymuniad wrth alw'r Etholiad, oedd sicrhau mwy i gefnogaeth i'n harwain i Brexit.

Etholiad Brexit oedd hwn i fod ond oherwydd y terfysgoedd ym Manceinion a Llundain mae'r pwyslais ar hyn o bryd wedi troi i drafod pwy all warchod ein gwlad. Ydy'r busnes argyfwng yn helpu Theresa May i gael mwyafrif cryf fel y dymunai. Cawn weld. Amser a ddengys. Cafwyd trafodaeth fywiog gan geisio ateb oblygiadau'r testun a gweld pa nor anodd yw bod yn gyson ar gwestiynau dadleuol.

Roedd hi'n noson fywiog a ffraeth o dan forthwyl Dr. John Williams mewn Ocsiwn yn y ganolfan ar nos Lun, 12 Mehefin i godi arian tuag at ymdrech 'Corwynt Cariad' i ynysoedd y Phillippines.

Dangoswyd ffilm a baratowyd gan Cymorth Cristnogol yn darlunio cyflwr byw trigolion yr ynysoedd hyn. Noson o roi a phrynu ydoedd a gwnaed elw o dros £300.

Diolchodd Carys Jones ein swyddog cyswllt i bawb am ddod ac am eu haelioni. Ar ôl paned o de a sgwrs aeth pawb adre'n fodlon iawn wedi cael bargeinion di-ri. Ein hymdrech nesaf tuag at yr Apêl yw taith gerdded noddedig ym Mharc Sefton, fore Sadwrn Gorffennaf 8fed am 10.30 i ymgynnull yn brydlon ger y llyn. Mae'r ffurflenni noddi ar gael oddiar fwrdd yng nghyntedd y capel. Disgwyliwn ymateb da a rhwyddineb i gael llawer in noddi ar y diwrnod arbennig hwn.

Ar y nos Lun olaf o'r mis cafwyd braslun o fywyd a chyfraniad un o emynwyr mawr y Diwygiad Methodistaidd, John Thomas (1730-1804) gan ein gweinidog Dr. D. Ben Rees a chyfle i drafod a chanu rhai o'i emynau o *Caneuon Ffydd*, sef emynau 16, 184, 251, 334, 344, 437, 546, 762.

Un o emywyr Sir Gaerfyrddin ydoedd. Magwyd ef mewn cartre di-grefydd a di-drefn ym Myddfai a gadawodd y cartref hwnnw yn 13 oed i weini ar fferm. Yno y derbyniodd anogaeth, gofal ac arweiniad a fu yn ddylanwad mawr arno. Ym mhen amser aeth yn was bach i Gruffydd Jones, Llanddowror ac un diwrnod galwodd Howell Harris heibio a chynnig le iddo yn yr ysgol yn Nhrefecca. Bu yno am flwyddyn. Oddi yno aeth yn athro peripatetig a phregethwr teithiol i'r gogledd a'r de cyn derbyn galwad i dri Capel yr Annibynwyr yn Rhaeadr Gwy yn Sir Faesyfed.

Cyhoeddodd *Ganiadau Seion* a'i hunangofiant *Rhad Ras*, ac yn un o'i lyfrau ef oedd y cyntaf i'w argraffu yn y Gymraeg yn Lerpwl yn 1767.

Gŵr diorffwys ydoedd dros Gymru a'r efengyl ac ar ddiwedd ei oes aeth i fyw i Abergwili a Chaerfyrddin lle y bu farw oddeutu 1804 neu 1810. Diolch i Dr. D. B. Rees am ymchwilio i'w gefndir a'i gyflwyniad ac i Margaret Anwyl Williams am ddethol tonau addas i ganu ei emynau, ac am y gynulleidfa gref a ddaeth ynghyd ar noson o haf.

Ein cyfarchion annwyl atoch chwi sydd yn methu â dod atom ar y Sul oherwydd amryfal amgylchiadau.

Dymunwn haf dedwydd i chwi gan obeithio y cewch flas o wylio ar y teledu yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn, ac i bawb a gaiff ymlacio yn y Brifwyl ac yn wythnosau Awst.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Dechreuwyd rhaglen haf y Gymdeithas gyda tê prynhawn yng ngardd 'Maeshir'. (gweler tudalen 1). Roedd yn brynhawn arbennig o braf a'r haul yn boeth. Cafwyd gwledd ardderchog a digon o amser i siarad a chael amser i edmygu'r ardd. Gwnaed elw o £125 tuag at Gronfa Hedd Wyn. Diolch i Roderick, Norma a Devida am baratoi y tê blasus.

Ar Fehefin 29ain aeth criw ohonom i Gaer am y diwrnod. Er iddi fwrw ychydig o lâw cawsom ddiwrnod diddorol wedi ei drefnu gan Alun Davies. Teithio ar y trên o Lerpwl i Gaer ac wedi cerdded ar hyd y gamlas a'r waliau aethom i weld arddangosfa hebogiaid yng ngerddi'r Eglwys Gadeiriol. Wedi cinio mynd ar daith ar yr afon Dyfrdwy ac wedi hynny gorffen y diwrnod gyda tê yn y 'Moorings Tea Rooms'. Roedd pawb wedi mwynhau y diwrnod yn fawr iawn a diolch i Alun am baratoi ar ein cyfer. Roedd merch yng nghyfraith Roderick sef Mila a'i mab Dani wedi ymuno gyda ni ar y daith. Mae'r ddau yn byw yn Oman.

Byddwn yn gorffen rhaglen yr haf gyda bwffe yng Nghlwb Criced Lerpwl. Gobeithio y caiff pawb wyliau braf dros yr haf. Bydd rhaglen tymor 2017/18 yn dechrau ar Fedi 19eg yn nhŷ Nan Hughes Parry.



*Noson yr Ocsiwn a ddaeth ag elw da i Corwynt Cariad*



*Stondin y llyfrau a'r recordiau*







*Cofleidio'r adar a'r criw a fu ar y daith i Gaer*

# CORNEL Y TRYSORYDD

## Awst/Medi 2017

| | |
|---|---|
| Dr D. Price Evans,Woolton | £20.00 |
| Mr a Mrs Alun V. Jones, Childwall | £20.00 |
| Mr a Mrs John Wynne Jones, Biwmaris | £20.00 |
| Ymddiredolaeth Eglwys Dewi Sant, Lerpwl | £250.00 |
| Mr a Mrs Gareth Pritchard, Llandudno | £11.00 |
| Rhodd Eglwys Bethania, Waterloo | £100.00 |
| Mrs Gwenfyl Bain, Allerton | £25.00 |
| Mrs Mary Evans, Caernarfon | £20.00 |
| Yr Athro Huw Rees.Boncath | £30.00 |
| Dr a Mrs Andrew Rushton, Oxton | £11.00 |
| **Cyfanswm** | **£507.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

## Cadair Gŵyl Hedd Wyn Penbedw 2017

### Bydd Cadeirio ym Mhenbedw

Gwych yw medru dweud fod 5 Cerdd wedi dod i law hyd yn hyn (Gorffennaf 4 – 16 diwrnod i fynd) ac felly fe fydd llawenydd yn yr Ysgol am ddau o'r gloch pnawn Sadwrn Medi 9 eleni Death y cyfle ganmlynedd yn ddiweddarach I ddiolch a chofio Eisteddfod y Gadair Ddu a champ anghyffredin y milwr-fugail o fardd o Drawsfynydd, Hedd Wyn a luniodd awdl ar yr Arwr a ddaeth a chlod a bri i'w ddawn a'i fedr. Gwnaed Cadair unigryw hardd ei gwneuthuriad, a rhoddedig gan Gymdeithas Hedd Wyn Flanders er cof amdano I'r bardd buddugol eleni. Teitl y Gerdd neu'r Cerddi yw *Hedd Wyn*. Gofynnwyd i Archdderwydd Cymru i lywyddu'r ddefod ym Mhenbedw am 2 or gloch pnawn Sadwrn 9 Medi 2017 a gwahoddir y Prifardd Sion Aled, Wrecsam a Dr Robin Gwyndaf,Caerdydd yn Feirniad y Gystadleuaeth Os am ragor o fanylion cysylltwch gyda dbenrees@gmail.com neu benatgarthdrive@talktalk.net. Edrychwn ymlaen I drysori y gerdd neu'r cerddi gorau, ac os ydych am ragor o wybodaeth gohebwch a chysyllwch gyda Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi.

# TASGAU DROS WYLIAU'R HAF

## A) PWY YDYNT?

1. Wyf yma'n ei henwi! (7)
2. Newid dy enw – i ddau a para'n un! (5 a 5)
3. Mae'r Cymro hwn yn dod o Galifornia (4)
4. Mae'r Gramadeg yn rhan o hon, 'ag' hebddo, mae yma (6)
6. Enw clyd i hen aelod seneddol i Sir Fôn (7)

---

## B) GWNEUD GEIRIAU

| | | |
|---|---|---|
| A | R | TH |
| O | E | D |
| B | A | D |

O'r llythrennau yn y bocs, gwnewch allan eiriau yn cynnwys pedair llythyren neu mwy. Mae yma o leiaf 23, ac mae un gair yn cynnwys y naw; hint fechan - paratoad.
Y llythrennau i'w defnyddio ond unwaith.

---

## C) GAIR AM AIR

**CARTREFTADOLURDDOESOLFFAEL**

Gwnewch eiriau allan o'r rhestr uchod, yn cynnwys tair llythyren neu mwy i redeg ar ôl ei gilydd. e.e. CAR, CART, CARTREF … Mae yma o leiaf 18.

Gweler yr atebion ar dudalen 11
Diolchir i Ken Williams (Aelod anrhydeddus o'r Angor) am y tasgau hyn.




*Gateacre,*
*Lerpwl,*
*26/6/2017*

Annwyl Dr. Ben,

Bob tro y gwelaf enw dyn sydd wedi ei hanrhydeddu a'i anrhegu â'r teitl – *Arglwydd* mae tymheredd y gwaed yn codi. I mi, mae'r enw hyfryd hwn yn perthyn i un person yn unig yn ein bywyd – Yr Arglwydd Iesu. Does neb arall dan yr haul yn deilwng o'r gair nac yn haeddu yr enw.

I ddweud y gwir, nid yw'r gair Saesneg 'Lord' – yn golygu dim imi; gair hollol gyffredin heb bwyslais na hystyriaeth. Mae wedi ei ddefnyddio ar hyd yr oesau hir, yn rhan o'r sefydliad cynnar yn ein hanes, i wneud â llywodraeth y wlad. Mae yna awgrym bod y gair wedi tarddu o'r enw *Laird* yn yr Alban. Fodd bynnag, oni ddylem ystyried am deitl arall i'r bobl yma. Meddyliwch am hyn, pan ddewch ar draws enwau fel y tri Cymro, sef Yr Arglwydd Heseltine; yr Arglwydd Kinnock ac yn olaf, ond nid y lleiaf, yr Arglwydd John Prescot.

*Yn gywir iawn*
*Ken Williams*

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn*
*07729 960484*

*Pwnc i'w Drafod*

# RHAGORDEINIAD?

Dyma athrawiaeth a gysylltir gyda Phresbyteriaeth Gymraeg, yn arbennig ddoe, yn wir heddiw mae'r pwnc yn cael ei anghofio. A sylwaf ers degawdau fod Rhagordeiniad (*Predestination*) wedi mynd yn bwnc peidiwch a'i drafod ac eto sut y gellir trafod Presbyteriaeth heb gyfeirio ato. Gallwn ei anwybyddu gan ein bod yn anwybyddu diwinyddiaeth a gwnaethom hynny ers cyn y rhyfel Byd cyntaf. Y mae hyd yn oed Dr Kate Roberts yn gofidio am hyn mewn llythyr i'w mentor Saunders Lewis, mab y mans. Ond os yw D. Ben Rees yn sgrifennu ar Bresbyteriaeth ni all ddianc rhag y drafodaeth. Mae'n ofynnol dweud gair am ragordeiniad. Y peth cyntaf yr wyf am ei ddweud yw hyn, nid John Calfin, na Chyffes Westminster, sydd yn gyfrifol am ragordeiniad. Fe ddaw o'r Beibl ac yn arbennig o'r Epistol at y Rhufeiniaid lle mae'r Apostol yn ein dysgu ein bod yn gwybod fod Duw "ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda rhai sy'n ei garu, y rhai sydd wedi ei galw yn ôl ei fwriad. Oherwydd cyn eu bod hwy, fe'u hadnabu, a'u rhagordeinio i fod yn unffurf ac unwedd a'i fab, fel mai cyntafanedig fyddai ef, ymhlith brodyr lawer. A'r rhai a ragordeiniodd, fe'i galwodd hefyd, a'r rhai a alwodd, fe'i cyfiawnhaodd hefyd, a'r rhai a gyfiawnhaodd, fe'u gogoneddod hefyd." (8: 28-30 ). Darllener Epistolau eraill am yr un gwirionedd… Dyna lle mae rhagordeiniad yn cychwyn, nid yn ymennydd Calfin, ond yn y Gair sydd yn llusern i ni. Ni chredai Paul ei fod e'n mynegi dim byd i wrido amdano ond i lawenhau. Credai ef a holl deulu Duw yn yr Eglwys Fore ein bod wedi 'ein rhagordeinio i ddilyn Iesu Grist.'

Dyna sydd yn esbonio fy mywyd i. Nid yn y mans y'm magwyd nac ar aelwyd blaenor, ac wrth gofio'r daith gyda y Parch Robert Ellis, Tŷ Croes mae'n rhaid imi gurro dwylo a chytuno a'r Apostolion ac aelodau eglwysi Asia Leiaf. A thrwy hanes yr Eglwys Fore o leiaf hyd derfyn oes Williams, Pantycelyn ychydig iawn o arweinwyr yr Eglwys oedd yn dawel ac yn ddi-hidio am rhagordeiniad. Nid oedd yr ynfytyn yn barod i'w daflu o'r neilltu. Presbyteriaid arwynebol y ganrif hon sydd yn ofni ymffrostio ynddo. Yr oedd y meddylwyr mawr Catholig fel Tomos o Acwin, diwinydd yr Eglwys Babyddol, yn anwylo'r gwirionedd. Felly oedd hi yn hanes Awstin Sant a Sant Ffransis o Assissi. Ac felly cofier gwrionedd eciwmenaidd yw rhagordeiniad, perthyn a wna i bob traddodiad, i'r Armin fel y Calfin.

Dadleuai Calin yn Genefa fod rhagordeiniad yn un o'r bendithion a rydd yr Arglwydd Iesu i ni, nid yr unig fendith. Y bendithion eraill – ydyw rhyddid i weddïo gyda'r Tad a'r Mab Iesu, darllen yr Ysgrythurau a esboniadau, a chredu yn yr Iawn Digonol, o nef newydd a Theyrnas Dduw a'r addewid o'r Ysbryd Glân a'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol. Cytunaf gyda Cynddylan Jones fod dilynwyr Calfin – fel Beza a Perkins – wedi mynd yn rhy eithafol gyda yr athrawiaeth o ragordeiniad dwbl. Parodd hyn drafferth ac ysgyrnygu dannedd.! Pregethwyr Môn oedd y drafferth yng Nghymru, dau yn benodol sef Christmas Evans a John Elias, dau o ddoniau'r hwyl na fu mo'u tebyg yn unlle ar gyfandir Ewrop ond ar y llaw arall diwinyddion ar goll. Uchel Galfiniaid oeddynt, ac yn y fan honno yr aeth y tarw trwy'r berth. Gyda Isel Galfiniaid fel Thomas Jones o Ddinbych y dymunaf droedio strydoedd Lerpwl.

Penderfynodd dau gorff Presbyteraidd ar ddechrau yr ugeinfed ganrif, sef *United Presbyterian Church USA* a *Presbyterian Church US* ddatgan i'r byd na ddylai yr athrawiaeth o ragordeiniad gael ei gamesbonio. Rhoddwyd pwyslais ganddynt ar drugaredd a chariad Duw. Da oedd hyn. Ni allaf stumogi y syniad gwrthun fod popeth a ddigwydd i unigolyn wedi ei ragordeinio. Nonsens llwyr Nid Efengyl Crist na Phresbyteriaeth yw peth felly. Mae'r syniad yn gyfforddus i elite crefyddol cyfalafol sy'n llwyddo mewn busnes ac eglwys ond i bobl y ddrycin Cariad a chefnogaeth a gobaith am ddyddiau gwell yw'r angen. Taflwn dros y bwrdd y syniad 'mae dyna'r drefn' yn hyn o fyd. Felly gellir credu mewn rhagordeiad Ysgrythurol fel y gwelodd y Gŵr o Genefa y gwirionedd.

***D. Ben Rees***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

**CRONFA ARBENNIG GŴYL HEDD WYN 2017**
**Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi**
**Cronfa Gŵyl i gofio**

**Eisteddfod y Gadair Ddu Penbedw a champ y bardd filwr a gollodd ei fywyd yn Pilkem Ridge (31-7-1917) sef Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) o Drawsfynydd a enillodd y Gadair, ac yr ydym am fewnforio carreg o'r India bell i'w goffau ar waelod y Gofeb a gaiff ei lanhau.**
**Cynhelir yr Ŵyl ar Sadwrn, 9 Medi a Sul, 10 Medi 2017 ym Mhenbedw.**

**Rhestr 8 (hyd 30 Mehefin 2017)**

–Ymateb godidog a diolch o galon i'r canlynol:

1) Clwb Rotari Wyddgrug / Rotary Club of Mold..........................£50
2) Roderick a Norma Owen, Maeshir, Springwood, Lerpwl..........£50
3) Hefin Rees, QC a Dr. Bethan Rees, Harpenden, Herts. .............£50
4) Miss Margaret Rowlands, Waterloo, Lerpwl..............................£20
5) Susan James, Mossley Hill (er cof am Emrys Owen a garai'n fawr lenyddiaeth a barddoniaeth) ...............................£50
6) Cronfa Ymddiriedolaeth Dewi Sant, Lerpwl.........................£2,000
7) Hilda a Brian Thomas, Mossley Hill, Lerpwl (er cof am Alwyn, y mab ac at gystadleuaeth y Gadair, ail gyfraniad i'r Gronfa).........................................................£100
8) Beryl a John Williams, Allerton (tuag at gystadlaethau y Goron), ail gyfraniad i'r Gronfa) .............................................£100

**Cyfanswm .......................................£2,420**

**Rhestr Haelioni**
**Rhestr 1 (hyd 31 Hydref 2016) ...................................£715.00**
**Rhestr 2 (hyd 31 Rhagfyr 2016) .................................£540.00**
**Rhestr 3 (hyd 31 Ionawr 2017) ...................................£443.00**
**Rhestr 4 (hyd 28 Chwefror 2017) ...............................£850.00**
**Rhestr 5 (hyd 31 Mawrth 2017)..............................£1,995.00**
**Rhestr 6 (hyd 30 Ebrill 2017).....................................£295.00**
**Rhestr 7 (hyd 31 Mai 2017).....................................£1,355.00**
**Rhestr 8 (hyd 30 Mehefin 2017) ...........................£2,420.00**

**Cyfanswm ............................................£8,613.00**

Cawsom fis calonogol eto yn wir y gorau o'r cyfan, ac yr ydym bellach yn medru ysgwyddo cost glanhau y garreg a gosod enw Hedd Wyn ar waelod y garreg goffa a talu'n ffordd yn yrŴyl.

**Dylid anfon y cyfraniadau i'r Cadeirydd: Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl, Liverpool L18 6HW pan mae'n gyfleus. Y sieciau i'w llenwi i 'Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi' neu 'Merseyside Welsh Heritage Society'.**


**Diolch am eich caredigrwydd, cydweithrediad a'ch cefnogaeth calonogol darllenwyr Yr Angor, ond cofier fod angen naill ai archeb neu bwrcasu Rhaglen y Dydd cyn 9 Medi oddi wrth un o aelodau y Pwyllgor Gwaith (Dr. Arthur Thomas, Dr. Pat Williams, Dr. D. Ben Rees, Mrs Beryl Williams, Brian Thomas, Elin Boyd, Rachel Gooding a Nan Hughes-Parry).**
**Gadawyd enw Mrs Beryl Williams allan yn y rhifyn diwethaf, gofidiwn am hyn, gan bod hi yn ymddiriedolwr o'r cychwyn bron. Dim ond y Cadeirydd a'r Trysorydd sydd â gwasanaeth hirach na hi.**

# ADOLYGIAD

**Hunangofiant y Parchedig Athro D. Ben Rees**

## "DI-BEN-DRAW"

Dwi newydd gael y fraint o ddarllen Hunangofiant y Parchedig Athro D. Ben. Rees sef "Di-Ben-Draw". Ces i flas mawr ynddo. Daeth cysylltiadau'r De Dr. Rees i'r amlwg. Sylweddolais er enghraifft a fu cyfnither ei wraig yn athrawes mathemateg i fi yn fy nosbarth cyntaf yr Ysgol Ramadeg Tonypandy. Buodd yn athrawes dda hefyd. Cefais y llyfr yn hynod o ddiddorol trwyddi draw.




Dwi'n gallu dychmygu un o gyfeillion Dr. Rees y De yn dweud yn nhafodiaith Saesneg:

*"Well he's having a rare old time of it up there in Liverpool."*

Wrth feddwl yn ddyfnach, ehangder ei waith dros y blynyddoedd sydd yn syfrdanol. Fel gweinidog, fel dinesydd ac fel aelod dynolryw dyngarol, mae ei ymroddiad a chyflawniadau cryn dipyn y tu hwnt i'r cyffredin. Atgoffwyd fi am firagl ein Harglwydd o fwydo'r torfeydd allan o adnoddau'n gymharol fach. Yr un llaw i'w ganfod yng nghynnydd yr achos yn Ne Lerpwl. Rhaid bod aml weddïau taer yn seilio a chynnal popeth sy'n mynd ymlaen yno. Llawer o ddrysau sydd ar agor. Cael mynediad i bawb clywed Efengyl Iesu Grist yw'r prif amcan ym mhopeth. Gogoniant Duw sydd yn yr Efengyl, nid unrhyw le arall. Neges fawr yr hunangofiant hwn yng ngeiriau Dr. Rees ei hun yw:

*"Nid oes dinas barhaus i neb ohonom a dylem wneud y gorau o bob cyfle a ddaw i ni"*

Onid yw'r Efengyl Iesu Grist yn bwysig felly wrth gysidro hyn?

Heblaw hyfrydwch, bid siŵr fod yna ddigon o benbleth â chalon friw yn yr alwedigaeth. Mae'n nodweddiadol o weinidogaeth Dr. Rees o'r dechrau. Bod bendith Duw ar Dr. Rees a'r praidd yn Ne Lerpwl. Da gwybod hefyd mai digon o gefnogaeth ganddo o du ei bobl. Mae'n hawdd deall ymrwymiad teulu'r mans i'r ardal. Synnwyd fi wrth weld cymaint o heolydd sydd yn arwain at Lerpwl. Daeth fy mam-gu hefyd, ochr fy mam, o Doxteth, lle cafodd ei geni, cyn symud i Bentre Rhondda.

Pe bai'r llyfr yn dod allan yn Saesneg blwyddyn nesaf, buaswn argymell y di-Gymraeg ei ddarllen am na fyddant wedi eu siomi. Dysgwyr y Gymraeg, ewch ati i gael gafael yn y fersiwn Cymraeg ac ymdrechwch yn araf bach ei ddarllen, mae yna gymaint i ddysgu. Yr iaith sydd yn rhan fach ond yn rhan bwysig wrth gwrs.

*Len Shurey - Caerffili*

# DARLITH LERPWL

## Y Chwyldro Gwyddelig: Cyfraniad Arthur Joseph Griffith (1871-1922) Trawsnewid Iwerddon o Nythfa Prydeinig i Wladwriaeth Fodern

*gan Dr Owen Morris, Bae Colwyn*

***CYFLWYNIAD***

Llynedd y bu cryn dathlu yn Iwerddon ac mewn mannau eraill trwy'r byd. 'Roedd y dathliadau yn ymwneud a Gwrthryfel y Pasg 1916. Mae'n debyg y gŵyr llawer ohonoch yma heno am yr hanes heb i mi ei ail adrodd, ac o bosib ei or-lafurio yn hollol ddi-anghenrhaid, ond yn syml am resymau y byddaf yn cyffwrdd arnynt wrth fynd ymlaen - methiant llwyr oedd gweithred yr 'Aberth Waedlyd' a gymerodd le yn Nulyn dros can mlynedd yn ôl.



***Arthur Joseph Griffith***

Bu rhaid i'r criw bychan o wrthryfelwyr - delfrydwyr oeddynt mewn gwirionedd heb unrhyw fath o hyfforddiant militeraidd yn cynnwys athrawon, ysgrifenwyr, beirdd, ffermwyr, undebwyr, a pherchenogion siopa bach a thebyg ildio yn ddi-amod i'r Fyddin Prydeinig, ac ildio tu fewn i 5 diwrnod Wythnos Gŵyl y Pasg, a hynny â'r ôl i 485 o fywydau gwerthfawr cael eu colli yn cynnwys 38 o blant diniwed.

Yn hytrach na thrafod methiant y Gwrthryfel, fy mhwrpas heno yw trafod yn nghyd destun y Chwyldro Gwyddelig cyfraniad 1 person arbennig o dras Cymreig ddaru sefyll allan yn ystod y cyfnod oedd yn arwain at y Gwrthryfel â'r cyfnod oedd yn dilyn y Gwrthryfel, sef y cyfnod ddaru Drawsnewid Iwerddon o fod yn Nythfa Prydeinig i fod yn Wladwriaeth Gyfoes. Mae gennyf TRI rheswm i ddewis y person yma:

Yn gyntaf, am ei fod o dras Cymreig ac yn Gristion a does dim ymddiheuriad gennyf am hynny!

Yn ail, am na chafodd y person yma gydnabyddiaeth teilwng o'i gyfraniad amhrisiadwy yn ystod yr holl dathliadau'r Gwrthryfel â'r Chwyldro Gwyddelig a gymerodd le y llynedd. Sylwadaeth personol yw hyn yn deillio allan o fynychu llawer o weithgareddau'r dathlu yn cynnwys rhai yma yn Lerpwl.

Y trydydd rheswm, ac y pwysicaf yn fy nhŷb i bod y person yma wedi gwrthod yn gyson ac yn unol â'i ddaliadau a'i ddysgeidiaeth Cristnogol a chymeryd rhan mewn Gwrthryfel Waedlyd. Nid oedd y person unigryw yma yn credu mewn trais o unrhyw fath, dewis y ffordd heddychlon, democrataidd yn hytrach na'r bomb a'r bwled oedd ei ddewis. Heddychwr o dras Cymreig oedd Arthur Joseph Griffith, newyddiadurwr, gwleidydd, ysgrifenwr toreithiog a Christion.

**DYDDIAU CYNNAR**

Fe anwyd Arthur Joseph Griffith yn Upper Dominick Street, Dulyn ar 31 o Fawrth 1871 fel y dywedais i deulu o dras Cymreig. Mae llawer o sôn fod y teulu gyda chefndir amaethyddol a Phrotestanaidd cryf iawn yn hanu o Sir Fflint cyn iddynt ymfudo i ardal Brotestanaidd yn Sir Monaghan, yn Nhalaith Ulster pryd hynny. Arthur oedd enw y Tad hefyd ac yn ôl pob sôn fe rhoddwyd yr un enw ar ei fab yn unol a'i wreiddiau Celtaidd. Fe rhoddwyd Joseph arno fel enw canol oherwydd i'r enw gael ei boblogeiddio yn ystod y Diwygiad Brotestanaidd yn Lloegr.

Ar ôl ei addysgu gyda'r Brodyr Cristnogol yn Nulyn fe gadawodd Arthur yr ysgol yn pymtheg oed a chychwyn ar brentisiaeth fel argraffwr a chysodwr gyda'r papur "Y Genedl" yn yr un argraffdy lle 'roedd ei Dad yn gweithio. Bu yno o dan adain ei Dad am gyfnod yn dysgu'r grefft o gysodi a chynefino ei hun â'r ail grefft o newyddiaduro cyn ymuno â'r mudiad Cynghrair Gaeleg gyda'r pwrpas o geisio adfer a hyrwyddo'r Iaith Wyddelig.

Oherwydd gwaeledd iechyd a cychwyniad cynner twbercwlosis, a hefyd ceisio osgoi y dirwasgiad ac yna di-waith, fe symydodd Arthur yn ei ugeiniau cynnar gyda'r gobaith o well hinsawdd tywydd ar gyfer ei iechyd, ac hinsawdd mwy ffafriol tuag at waith i fyw i'r Transvaal, De Affrica lle ddaeth o dan ddylanwad Protestaniaeth cryf Paul Kruger tra 'roedd yn gweithio fel clerc mewn un o pyllau mwyngloddio aur yn Ne Affrica, ac yn ddiweddarach wrth gwrs fel llawer o Wyddelod oedd yn byw yn Ne Affrica ar y pryd, yn cydymdeimlo a chefnogi y Boers yn y cyfnod tyngedfennol cyn y rhyfel 1899-1902.

**DYCHWELYD I DDULYN 1899**

Pan dychwelodd Arthur yn ôl i Ddulyn yn y flwyddyn 1899 fe ddaeth o dan ddylanwad a dysgediaeth Cymro arall, bardd, protestant, a newyddiadurwr o'r enw Tomos Davis. 'Roedd teulu Tomos Davis yn hanu o Abertawe ac o dan ddylanwad diwylliannol Tomos fe sylfaenodd Arthur Griffith papur wythnosol o'r enw Y Gwyddel Unedig gyda ei hen gyfaill ysgol William Rooney. Pwrpas y papur oedd delio a phynciau cenedlaethol pwysig y dydd a hefyd galw am annibyniaeth economaidd a gwleidyddol oddiwrth Prydain Fawr. Mi fu'r ddau yn cyd-weithio'n agos iawn a'i gilydd – partneriaeth gwych ac fe ddaeth yn andros o siôc i Arthur pan ddisgynodd William yn farw o haint ar ôl dim ond 2 flynedd o gydweithio ar y papur yn 1901.

'Roedd Arthur Griffith yn ddyn cydwybodol iawn, ac fe gymerodd cryn dipyn o boenau ar ei hun i gyrraedd cywirdeb a safon mewn popeth a ysgrifennodd, trwy brynu llyfrau yn aml ar drael pris ei fymryn prydiau, a hela am lyfrgelloedd gyda'r bwriad yna mewn golwg. Yn diweddarach bu ei ymroddiad a'i ddyfal-barhâd i lwyddiant y papur mor werthfawr i'w genedl nes i William Butler Yeats, George Russell, John Erlington, Padraic Colum i enwi dim ond rhai o'r beirdd, economegwyr gwleidyddol, haneswyr y cyfnod – y cyfan yn cael eu lle yn ei bapur, gyda un amod; bod y cyfranwyr yn defnyddio themau Iwerddon a bod cynnwys y cyfraniadau er budd Iwerddon yn unig.

Un arall a gyfranodd yn helaeth i'r *United Irishman* oedd Syr Roger Casement. 'Roedd gan Roger Casement gysylltiad a Lerpwl. Yma oedd ei Fodryb a tri o'i gefndryd o'r enw Bannisters yn byw ac fe 'roedd yn galw i'w gweld yn weddol aml. Roger Casement gyda llaw oedd yr unig un o'r Rebels 1916 cafodd ei ladd trwy ei grogi ac nid ei saethu am FRAD yn Lloegr ac nid yn yr Iwerddon am rhyw reswm am ei ran yn y Gwrthryfel.

Dyn tlawd iawn oedd Arthur Griffith, tlawd yn unig mewn termau economaidd, wedi ei fagu ar aelwyd tlawd ac wedi byw yn dlawd trwy ei oes. Doedd ganddo fawr ddim arian i dalu am y cyfraniadau wythnosol i'w bapurau, ond bu ei ymddroddiad, ei ddiffuantrwydd â'i onestrwydd yn bell gyrhaeddol gan gyfranwyr y papur oherwydd eu bod hwythau hefyd yn rhannu yr un gobeithion a dyheadau ag Arthur y bydd Iwerddon rhyw ddiwrnod yn rhydd o afael John Bull a cymeryd ei lle naturiol ymysg cenhedloedd y ddaear. Yn wir roedd dylanwad Arthur Griffith allan o pob rheswn i gylchrediad ei papurau.

Dyn swil, di-sylw iawn oedd Arthur yn ifanc. Dywed llawer bod hyn yn deillio allan o nam cerdded oedd ganddo, a hefyd nam gyda'i lygaid. I ddelio a'r nam cerdded fe 'roedd rhaid i Arthur wisgo esgidiau pwrpasol gyda gwaden drwchus i hwyluso ei gerddediad lletchwith, I ddelio a'r nam golwg fe oedd rhaid i Arthur wisgo sbectol weddol fawr du a thrwchus ac oherwydd ei ymwybyddiaeth o'i ddiffygion corfforol doedd ganddo fawr ddim hyder ynddo ei hun gyda diethriaid, ac yn enwedig merched ei oed, a chael hi'n anodd iawn cyfarch ei ffrindiau hyd yn oed hwy trwy ddefnyddio eu henwau cyntaf. Ond trwy fynychu'r cylch llenyddol y Ddinas fe dyfodd hyder Arthur ac fe ddaeth yn ffrindiau agos a theulu arall oedd wedi

ymfudo o Gymru – y teulu Williams.

'Roedd yno dair o ferched talentog a dawnus yn y pethe oedd yn ymddiddori Arthur Griffith: cerddoriaeth, llenyddiaeth, ysgrifennu ac arlunio. Lilian Williams, Flo Wiliams ac Nora Williams oedd enwau'r merched wedi eu magu yng nghanol y Ddinas ar aelwyd Gristnogol, Protestanaidd a gweddol gyfoethog. Trwy'r holl helyntion a'r holl garcharu y bu Arthur trwyddo yn y blynyddoedd i ddod, fe cadwyd y cyfeillgarwch agos a chynnes yma rhyngddynt i'r diwedd.

Ar y 24ain o Dachwedd 1910 fe briododd Arthur ei hen gariad Maud Sheehan ar ôl 15 mlynedd o ddyweddiad sensitif a thlawd. Trwy drugaredd a charedicrwydd ei ffrindiau fe gasglwyd rhyngddynt digon o arian i brynu tŷ iddo ef a'i wraig Maud cael cychwyn eu bywydau priodasol, ac fe anwyd dau o blant iddynt; mab o'r enw Nevin a merch o'r enw Ida.

Ar ôl peth gweithgarwch yn y byd gwleidyddol yn hybu Cenedlaetholdeb a materion eraill Gwyddelig fe sefydlwyd Arthur fudiad gwleidyddol yn pregethu hunan-ddibyniaeth yn hytrach na Chwyldro yn y flwyddyn 1905 o'r enw Sinn Fein, yn golygu (Ni) ac nid (Ni Ein Hunain) fel dywed llawer. Dyma'r dyddiad oedd yn cyd-redeg a pholisiau ysgrifenedig Arthur Griffith. Fe sylfaenwyd egwyddorion Sinn Fein o lyfr a ysgrifennwyd Arthur yn y flwyddyn 1904 "Atgyfodiad Hwngari: Parallel i Iwerddon". ac yn nodi yn ei lyfr sut aeth gwlad Hwngari o fod yn ran o Ymerodraeth Awstria i fod yn Deyrnas cyd-cyfartal yn y dalaith AWSTRIA-HWNGARI.

Dyma oedd weledigaeth Arthur ar gyfer Iwerddon, yn benodol, bod Iwerddon yn dwad yn Deyrnas ochr yn ochr a Theyrnas Prydain Fawr – y ddwy wlad yn ffurfio Teyrnas Deuol gyda UN Brenin a oedd i'w rannu a dwy llywodraeth arwahan.

'Roedd Arthur yn credu bod Duoliaeth yn lwyfan i uno'r wlad ac yn y pen draw uno Iwerddon i gyd. Yn ganolog i'r ystrwythyr yma oedd y syniad o Ymatal Gwleidyddol Heddychlon, hyny yw nad oedd Aelodau Seneddol Iwerddon i fynychu San Steffan o gwbwl, ac yn lle hyny cychwyn Senedd annibynnol yn Dulyn gyda phŵerau deddfwriaethol economaidd ac gwleidyddol. Fe ddisgrifiodd yr hanesydd T M Kettle mewn Cylchgrawn yn y flwyddyn 1902 o'r enw *The New Ireland Review* polisi Arthur Griffith fel y syniad mwyaf a gyfranwyd i Wleidyddiaeth Iwerddon ers cenhedlaeth cyfan! ac 'roedd yn gweld gwerth mawr ynddo.

'Roedd Arthur yn credu yn grŷf yn y ddadl "heb Annibyniaeth Economaidd i Iwerddon doedd dim posib derbyn rhyddid Gwleidyddol i'r Wlad. Ond, serch hyn ac ar ôl cryn feddwl am beth a ddywedodd, fe ychwanegodd Arthur i'r ddadl blwyddyn yn ddiweddarach gyda'r amod canlynol: "Petae Iwerddon yn derbyn annibyniaeth economaidd a gwleidyddol y fory, a bod hi'n colli ei hiaith, ei llenyddiaeth a'i threfdadaeth diwylliannol, mi fuasa'n debyg i Esau yn yr Hen Destament wedi gwerthu ei Enedigaeth Fraint am lwyth o potes". Fe wnaeth ei flaenoriaeth a'i safiad yn berffaith glir i'r genedl.

Daliodd Arthur i gyhoeddi ei bapur propaganda wythnosol Y Gwyddel Unedig hyd at y flwyddyn 1914 hyd at i Llywodraeth Prydain ei wahardd yn ogystal a gwahardd Sinn Fein trwy ddweud: "Hwn (Arthur Griffith.) yw gelyn mwyaf Lloegr ers y Deddf Uno 1800." Er mwyn ceisio profi mae gelyn oedd Arthur Griffith, bu Swyddogion y Sefydliad yn brysur yn casglu a dadansoddi canoedd o'i erthyglau oleuedig hyd a lled Ulster, Munster, Leinster a Connaught – pedair Talaith Iwerddon. 'Roedd y Sefydliad am waed Arthur Griffith, yn gyntaf am ledaenu yr athroniaeth hunan-lywodraeth, ac yn ail am ei ymdrechion gwrth-ricriwtio 'i'r fyddin Prydeinig yn ystod rhyfel y Boers, ond methiant llwyr oedd darganfod unrhyw weithred oedd yn caniatau ei gyhuddo o Frâd, ac felly methiant oedd yr ymdrech a hongian warrant marwolaeth arno.

Serch hyn, doedd y Sefydliad Prydeinig ddim am ildio i erlyn Arthur Griffith, ac yn ôl Michael Farrell hanesydd o'r Gogledd, fe drefnwyd i Capten John Hardy Swyddog gyda'r Fyddin Prydeinig o gefndir Gogleddol gyfarfod a Col. Fred Crawford, cynrychiolwr treisgar y Sefydliad, Castell Dulyn yn ystod mis Medi 1920 i drafod Cynllun o herwgipio Arthur a oedd yn arweinydd Sinn Fein erbyn hyn, gyda'r bwriad o'i fwrw i ddwylo anghyfreithlon yr Ulster Volunteer Force yng Ngogledd Iwerddon.

***(ail ran y ddarlith yn ein rhifyn nesaf)***




***MEDI***

***Yn yr ardd flodau***

Daliwch ati i fwydo'r blodau gan gynnwys y rhai yn y basgedi.
Gallwch blannu hyacinth ac amaryllis ar gyfer y Nadolig.
Plannwch fylbiau saffrwm a chennin Pedr. Mae'r hydref yn amser da i blannu coed a llwyni pan fo ychydig o dywydd gwlyb ac ychydig o wres hefyd.
Ewch o gwmpas i dorri'r blodau sydd wedi gwywo, fe gewch gnwd o flodau newydd yn eu lle.

***Yn yr ardd lysiau***

Os oes gormod o gnwd, dyma'r amser i'w cadw, eu piclo, gwneud jamiau, eu rhewi a'u storio. Rhowch gynnig ar ryseitiau newydd.
Gallwch dorri blaendyfiant y tomatos rŵan.
Os daw 'llaeth' allan o'r ffa melyn, mae'n barod i'w fwyta.
Os oes ôl malltod [*blight*] ar y tatws, torrwch y dail rhyw 3 wythnos cyn eu codi.
Gadewch y tatws i sychu ar wyneb y pridd am ychydig oriau. Storiwch nhw – ond dim ond y tatws iach - mewn sachau wedi iddyn nhw sychu'n dda.
Daliwch i ddyfrio ffa Ffrengig a ffa dringo. Tynnwch nhw'n aml rhag iddyn nhw fynd i had.
Peidiwch â chodi pys a ffa o'r ddaear wedi iddyn nhw orffen tyfu. Mae eu gwreiddiau yn rhoi nitrogen i'r pridd.
Rhowch ychydig o fintys a phersli mewn potyn ar gyfer y gegin dros y gaeaf.
Hwyrach y bydd angen rhwyd i gadw'r adar oddi ar y bresych.

***Cyffredinol***

Tacluswch y gwely mefus rhag elfennau niweidiol.
Taflwch unrhyw ffrwythau sydd wedi pydru.
Dylech ddyfrio'r tŷ gwydr yn y bore; mae botrytis yn hoffi nosweithiau tamp ac oer. Caewch y drws yn y pnawniau.
Gellir hau hadau lawnt ym mis Medi. Gallwch hefyd fwydo lawnt sydd wedi'i hen sefydlu.

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2017. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Hydref 2017 –** erbyn bore Gwener, 1 Medi, 2017, – neu ar y we i dbenrees@gmail.com
**ii) Rhifyn Tachwedd 2017** erbyn bore Sul, 1 Hydref, 2017 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk.net
**iii) Rhifyn Rhagfyr 2017/Ionawr 2018 –** erbyn bore Sul, 29 Hydref, 2017 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 11.00 ar ddydd Llun 30 Hydref.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

# ADOLYGIAD

D. Ben Rees,
**Y Cenhadwr Cyntaf o blith Cymry Lerpwl: Josiah Hughes (1804-1840)**
(Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 2016), £15

Mawr yw ein dyled i'r Dr D. Ben Rees am lafurio i sicrhau nad aeth y cenhadwr Josiah Hughes (1804-40) yn angof yn ein dyddiau ni. Gwaith arloesol a thrylwyr a gyflwynir inni yma o ysgrifbin hynod o gynhyrchiol yr awdur toreithiog hwn. A sail yr astudiaeth hon yw'r casgliad sylweddol o ddogfennau a gohebiaeth sydd ar gadw yn archif sylweddol Cymdeithas Genhadol Llundain, ac yn eu plith ceir nifer o lythyrau dadlennol ac arwyddocaol o eiddo Josiah Hughes ei hun. Ceir tystiolaeth amlwg yma hefyd am ddarllen eang a manwl i ddod o hyd i wybodaeth am gefndir hanesyddol gwrthrych yr astudiaeth bwysig hon. A cheir yn yr ôl-nodiadau llawer iawn o ddarnau o wybodaeth werthfawr ychwanegol, gan gynnwys bywgraffiadau cryno o rai o'r cymeriadau sydd yn codi yn y stori ryfeddol hon, ac sydd o ddiddordeb mawr i'r darllenydd wrth iddo ddarllen ymlaen.

Disgrifir Josiah Hughes yma fel 'un o arwyr anghofiedig cymuned Cymry Lerpwl, a hyd yn oed Ymneilltuaeth Gymraeg' (tud. 7). Roedd ei dad John Hughes, brodor o Abergele, yn un o flaenoriaid amlycaf ei enwad yn Lerpwl o 1813 ymlaen ac addolai aelodau'r teulu yng nghapel Pall Mall yn y ddinas. A rhyfeddol o anodd iddynt ar y cychwyn oedd dygymod â bywyd prysur ac ansicr dinas fel Lerpwl.

Cafodd Josiah Hughes ei ordeinio yng nghapel Great George Street ym mis Chwefror 1830. Ei uchelgais mawr oedd cael mynd i genhadu yn yr India, a theithiodd o Lerpwl i Bombay ym 1830, ar long a gymerodd saith mis ar ei hyd i gyrraedd pen y daith. Yna teithiodd ymlaen i Penang ac yna i Malacca, sef pen terfynol y daith, yn y mis Tachwedd. Disgrifir Malacca yma fel 'canolfan gweithgarwch Cymdeithas Genhadol Llundain yn rhan ddwyreiniol Asia' (tud. 15).

Ar ôl cyrraedd y lleoliad hwn, aeth Josiah Hughes ati i ddysgu o fewn yr ysgolion lleol, i efengylu dros y pedair cymuned ieithyddol a fodolai yno ar y pryd, ac i fugeilio'r cynulleidfaoedd a fodolai yno ar yr adeg honno. Aeth ati'n ogystal i weinidogaethu ac i ddysgu o fewn y Coleg Eingl-Tsieinaidd lle blodeuodd yn aruthrol gan wneud cyfraniad nodedig dros ben fel athro. Aeth ymlaen i fod yn gyfrifol am agor tair ysgol yno, gyda 83 o blant yn cofrestru ynddynt mewn fawr o dro.

Ond, yn ôl y dystiolaeth a gyflwynir inni yn yr astudiaeth hon, nid oedd bob amser yn llwyddiant mawr fel trefnydd a gweinyddwr, a bu perthynas lai na hwylus rhyngddo ef a'r awdurdodau yn Llundain ar adegau. Yn ogystal gwelwyd rhywfaint o wrthdaro rhyngddo ef a rhai o'r cenhadon eraill a oedd yno ar y pryd, yn fwyaf arbennig gŵr o'r enw John Evans (nid oedd hwnnw'n Gymro o unrhyw fath yn y byd er ei enw!) a anfonwyd yno gan y Gymdeithas Genhadol fel cenhadwr.

Gwynebai Josiah Hughes dalcen caled wrth geisio efengylu a chenhadu ym Malacca a chynyddu a wnaeth ei anawsterau yno. Ac mae'r ohebiaeth yn Llundain yn dyst huawdl i'r tensiynau sylweddol a godai yn enwedig rhwng unigolion fel Josiah Hughes, John Evans a Jacob Tomlin. Ac mae Ben Rees yn asesu'n ofalus natur y berthynas a fu rhwng Hughes a Tomlin yn arbennig. Er iddo ddod o hyd i dystiolaeth am berthynas gyfeillgar rhwng y ddau, ni allai Hughes wrthod y casgliad 'fod agwedd Tomlin yn gyfrifol am yr awyrgylch annifyr ymhlith cenhadon Cymdeithas Genhadol Llundain ym Malaysia, yn arbennig yn Penang a Malacca' (tt. 27-28). Yn ddiweddarach gwelwyd rhywfaint o gymodi rhwng Hughes a John Evans yn ogystal.

Erbyn diwedd y flwyddyn 1835 roedd Josiah Hughes yn rhydd o'i gysylltiad â Chymdeithas Genhadol Llundain, ac roedd Jacob Tomlin a'i deulu (ac yr oedd ganddynt bedwar plentyn erbyn hynny) ar ei ffordd adref i Loegr ym 1836-37. Erbyn y pwynt hwn, roedd y Parch John Hughes, sef tad Josiah Hughes, yn ei anterth o fewn dinas Lerpwl ac 'wedi datblygu yn arweinydd medrus, galluog gyda phenderfyniad di-ildio tu ôl i'w ddadleuon' (tud. 30). Byth ers 1830, pan aeth ei fab yn genhadwr, ei nod oedd mynd ati i sefydlu tystiolaeth genhadol.

Pan adawodd Tomlin Calcutta er mwyn teithio nôl i Loegr, roedd Josiah Hughes ar ei ffordd i Calcutta er mwyn trafod ordeiniad esgobol gydag Esgob Calcutta ar y pryd sef y Dr Daniel Wilson, sef cyn ficer Islington yn Llundain pan roedd yn gwrthod cefnogi'r Gymdeithas Genhadol. Ond gwnaethpwyd argraff anghyffredin o ffafriol arno gan bersonoliaeth a daliadau Josiah Hughes, ac ym 1838 aeth yr esgob mor bell ag ymweld â Malacca o dan oruchwyliaeth bersonol Hughes. Cytunodd yr Esgob i ordeinio Josiah Hughes a John Evans fel ei gilydd, ond, fel mae'n digwydd, ni ddigwyddodd hynny. Bu rhagluniaeth yn ymyrryd mewn ffordd hynod greulon.

Bu farw Josiah Hughes o'r colera ar 25 Tachwedd 1840, ac yntau ond yn 36 mlwydd oedd. Ceir hanes eithriadol o drist hwn yn gryno yma o ysgrifbin D. Ben Rees. O fewn diwrnod i'w farwolaeth gosodwyd ei gorff i orwedd ym mhridd Malacca, gyda neb llai na John Evans yn gofalu am yr angladd. Ac yr oedd Evans yntau hefyd wedi marw o fewn cyfnod byr iawn. Yn dilyn marwolaeth y ddau gawr hyn, nid oedd rhyw lawer o ddyfodol i'r achos cenhadol yn y rhanbarth hwnnw, a daeth yr achos i ben yno ym 1843. A sonnir yma (gweler tud. 35 o fewn y llith hwn) am ymateb Esgob Calcutta i'r colledion erbyd hyn.

Ac, yn yr oes honno, nid oedd teulu John Hughes yn Lerpwl yn gwybod dim am yr hyn a ddigwyddodd am chwe mis arall, a marwolaeth Josiah yn sioc iddynt wrth reswm. Bu'r tad fyw ymlaen am wyth mlynedd arall, ac yn ei ewyllys gadawodd y swm o £83-19-6 i Genhadaeth Dramor y Methodistiaid Calfinaidd Gymraeg. Parhau fodd bynnag a wnaeth achos y Genhadaeth Dramor yn India – o 1840 hyd at ddiwedd y 1960au. A thrwy ymdrechion clodwiw y Parch D. Ben Rees, ni fydd gwaith arloesol John Hughes, Josiah Hughes a Jacob Tomlin fyth yn mynd yn angof bellach.

Pleser yw gweld y llith hon wedi ymddangos mewn Cymraeg a Saesneg graslon a darllenadwy sydd yn bleser pur eu darllen. Ac mae'r gyfrol fach hon yn un arbennig o raenus a hylaw ei diwyg, yn bleser ei thrin a'i thrafod a'i gweld ar ein silffoedd llyfrau lle bydd yn derbyn cartref anrhydeddus ochr yn ochr â chynifer o gyfrolau eraill o waith yr awdur dawnus a gweithgar hwn sydd bellach ar drothwy dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed ym mis Awst eleni.

***J. Graham Jones***

## YR ATEBION I'R TASGAU

**A) PWY YDYNT.**

1. Myfanwy; 2, Edwin a Edwyn. 3, Ifor; 4, Marged. 5, Cledwyn.

**B) GWNEUD GEIRIAU –** 1. **Darbodaeth:**

Abad, Aber, Aberth, Adar, Arab, Arad, Arbed, Athro, Athrod, Bara, Bathor, Bera, Boda, Bord, Bore, Brad, Brath, Daear, Da-da, Daeth, Dean, Deor.

**C) GAIR AM AIR:**

Car, Cart, Cartref, Tre, Tref, Tadol, Tad, Dol, Treftadol, Dolur, Urdd, Urddo, Ddoe, Oes, Oesol, Solffa, Ffael, Ael.

# *Cymry Lerpwl yn Cofio Hedd Wyn yn Maeshir*



*Ymlacio yn yr heulwen a sgwrsio braf yn yr ardd hardd*

*Mae bwyd Norma a Davida yn fendigedig meddai Wena wrth y camera. A dyna ninnau yn amenio*





*Y tri gŵr doeth, nesaf at y camera Tim Evans (Allerton), Eryl Wynne Jones (Woolton) a David John Williams (Gateacre)*



*Y Golygydd Weinidog ar hen ffon ei famgu*

*Lluniau tudalen 1 a 12 o eiddo Dr. John G. Williams*